




## CAREIUM ABBY

### SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW HWN

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cwsmeriaid ac aelodau o'r teulu.  
Mae'n esbonio sut i ddefnyddio'r larwm Careium Abby.

#### SUT MAE'N GWEITHIO

- Pwyswch a daliwch y **botwm cymorth** am 3 eiliad
- Bydd y ddyfais yn galw'r ganolfan fonitro
- Gallwch siarad â'r gweithredwr drwy'r ddyfais siarad
- Mae'n gweithio **gartref a phan fyddwch chi allan ar hyd y lle**



#### LLEOLIAD A DOD O HYD I CHI

Mae gan y ddyfais **nodwedd lleoliad** i helpu i ddod o hyd i chi os oes angen help arnoch.

- Pan fyddwch chi'n pwyso'r **botwm cymorth**, gall rannu eich **lleoliad** gyda'r ganolfan fonitro
- Mae hyn yn ei helpu i anfon yr **help cywir i'r lle cywir**, yn enwedig os ydych chi allan ar hyd y lle
- **Dim ond pan** fo angen y defnyddir y lleoliad, megis yn ystod galwad larwm


#### PRYD I WASGU'R BOTWM CYMORTH

- ✓ **Wedi cwmpo**
- ✓ **Yn teimlo'n anhwylus**
- ✓ **Angen help neu sicrwydd**




## GWISGO'CH LARWM

- Gwisgwch eich larwm drwy ddefnyddio'r **cortyn**, neu ei gario mewn poced neu fag
- Cadwch y larwm gyda chi **bob amser**, gan gynnwys pan fyddwch chi'n mynd allan ar hyd y lle
- Mae'n **gwrthsefyll dŵr** a gellir ei wisgo yn y glaw neu'r gawod, ond peidiwch â'i wisgo yn y bath



## GWEFRU

- Rhowch e nôl yn y crud gwefru bob dydd
- Ceisiwch wefru'r larwm dros nos os yn bosibl
- Mae rhybudd batri isel yn golygu bod angen gwefru'r larwm cyn hir



## PROFWCH EICH LARW

- Profwch eich larwm **unwaith y mis**
- Dewiswch ddyddiad hawdd i'w gofio
- Dylech bob amser roi gwybod i'r gweithredwr mai **galwad brawf** ydyw

## OS YW'N DANGOS NEGESEUON RHYBUDDIO NEU'N GOLEUO

Gall hyn olygu:

- Batri isel
- Dim signal symudol

Symudwch i le sydd â signal symudol gwell neu ei roi yn ôl yn y gwefrwr

## AWGRYMIADAU PWYSIG

- Gofalwch fod digon o bŵer ar ôl ynddo
- Peidiwch â'i adael yn y crud gwefru trwy'r dydd os ydych chi'n mynd allan
- Peidiwch â gorchuddio'r ddyfais siarad na'r meicroffon

## Angen help?

Os ydych chi'n ansicr neu os nad yw rhywbeth yn gweithio:

- Cysylltwch â ni drwy ffonio **0300 333 2222**
- Rydyn ni'n argymhell eich bod yn cadw'r canllaw hwn ger y crud gwefru

